
# Cefnogi Coetsys Cymru


cpt

## Agenda ar gyfer Senedd nesaf Cymru

Daw etholiadau Senedd 2021 ar adeg dyngedfennol i'r diwydiant coetsys gyda Covid-19 yn rhoi pwysau sylweddol ar y sector. Mae'n hollbwysig fod pob plaid yn gweithio gyda'i gilydd yn nhymor nesaf y Senedd i helpu i feithrin adferiad cryf. Cwmnïau lleol y mae teuluoedd eu piau yw gweithredwyr coetsys yn aml. Maent yn gwybod sut i redeg busnesau llwyddiannus, ond mae arnynt angen cefnogaeth a diddordeb gwleidyddion Cymru yn ystod y cyfnod hwn i'w helpu i sicrhau llwyddiant.




mae **80%** o incwm y diwydiant yn gysylltiedig â thwristiaeth





## Deall y diwydiant coetsys

Mae coetsys yn chwarae rhan hanfodol bwysig wrth symud pobl o A i B ac yn cadw miliynau o siwrneiau ceir oddi ar ein ffyrdd. Gwneir miliynau o ymweliadau gyda choets bob blwyddyn i atyniadau a lleoedd ar draws Cymru, gan gyfrannu £14bn at economi twristiaeth y DU yn 2019. Mae miloedd o blant yn dibynnu'n rheolaidd ar goets i fynd â nhw'n ôl a blaen i'r ysgol yn ddiogel ac mae coetsys yn camu i mewn yn aml i ddarparu cludiant brys, megis cymryd lle trenau neu pan gaiff awyrennau eu dargyfeirio. Maent hefyd yn helpu cefnogwyr chwaraeon i ddilyn eu tîm ar draws y wlad, mae ysgolion yn trefnu ymweliadau addysgol ac yn rhoi dewis arall cost-effeithiol yn lle teithio ar drên neu awyren.




Dylai diwydiant coetsys ffyniannus a llewyrchus fod yn elfen ganolog o gynlluniau Cymru i ddod dros y pandemig Covid-19 ac i fod yn arweinydd byd wrth ymladd yr argyfwng hinsawdd a gwella ansawdd aer yn ein trefi a'n dinasoedd. Fel y mae'r gweithgareddau a nodwyd uchod yn ei ddangos, mae coetsys yn effeithio ar ein holl les mewn nifer o ffyrdd.


## Effaith y pandemig Covid-19




Mae'r pandemig Covid-19 wedi cael effaith ddinistriol ar ddiwydiant sydd fel arfer yn sylfaenol iach a phroffidiol. Ond, gyda chyfyngiadau'r cyfnod clo yn llacio'n raddol, mae'n debygol y gall tripiau gychwyn yr haf yma ac mae'n gyfle i'r diwydiant chwarae rhan arweiniol yn adferiad economaidd Cymru.

Yn ystod y pandemig, mae contractau cludiant rhwng cartref ac ysgol wedi'u cefnogi yn ôl cyfradd o 75% o werth y contract ac mae llawer o weithredwyr coetsys wedi gallu cael at y Gronfa Cadernid Economaidd fel rhan o gadwyn gyflenwi twristiaeth a lletygarwch. Yn ddiamheuol mae'r cymorth hwn wedi bod i'w groesawu.

Ond mae yna alw wedi cronni am gael teithio a gyda'r cymorth iawn gall y diwydiant ddod ar ei hun a pharhau i ddarparu siwrneiau hanfodol yn ogystal â chwarae rhan allweddol wrth gicdanio economi twristiaeth Cymru.




## Cyflawni sero-net a gwella ein haer: rhan coetsys

Bydd coetsys yn chwarae rhan ganolog yn ymgyrch Cymru tuag at sero-net ac aer glanach trwy leihau nifer y ceir ar ein ffyrdd.
Byddai cynnydd o ddim ond 15% mewn teithio gyda choets ar draws y DU yn golygu 47 miliwn yn llai o geir ar ein ffyrdd, gan leihau allyriadau carbon deuocsid o dros chwarter miliwn tunnell. Bydd mwy o ffocws ar annog i fwy o siwrneiau gael eu gwneud gyda choets, ar gyfer hamdden ac ar gyfer dibenion hanfodol, yn helpu Cymru i gwrdd â'i thargedau newid hinsawdd ac ansawdd aer.

Er bod coetsys eisoes ymhlith y cerbydau glanaf ar ein ffyrdd, trwy welliannau i'r fflyd coetsys ar draws Cymru a'r DU gallwn leihau allyriadau carbon deuocsid hyd yn oed ymhellach, o tua 56,000 tunnell dros y degawd nesaf, a lleihau allyriadau ocsidau nitrogen cyfwerth â £225m mewn arbedion cost difrod. Mae coetsys â rhan gadarnhaol i'w chwarae hefyd wrth wella ansawdd aer, gyda choetsys Euro VI yn lleihau lefelau gronynnau a helpu i leihau effeithiau iechyd negyddol teithio.






# Cefnogi Coetsys Cymru: Beth sydd angen inni ei weld

Mae teithio ar goets yn opsiwn teithio cynhwysol, cynaliadwy, amgylcheddol gyfeillgar sy'n lleihau llygredd aer, allyriadau carbon a thagfeydd ar y ffyrdd. Bydd yn hollbwysig i dargedau amgylcheddol tymor hir ac adferiad economaidd Cymru.

Mae'r diwydiant yn barod i weithio gyda Llywodraeth a Senedd nesaf Cymru i godi proffil teithio ar goets gyda theithwyr unigol, ardaloedd lleol a chymdeithas yn ei chyfanrwydd. Er mwyn i'r diwydiant coetsys gyflawni ei botensial llawn mae arnom angen i Lywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i ddarparu amgylchedd gweithredu cyfeillgar i goetsys.

Isod mae'r polisïau y mae arnom angen i Lywodraeth nesaf Cymru eu cyflawni:

## Helpu'r sector yng Nghymru i ddod dros Covid-19

Cronfa Adferiad Coetsys i Gymru o £7.5m i gefnogi gweithredwyr coetsys Cymru i ddod yn ôl yn weithredol tra bod cadw pellter cymdeithasol yn ei le. Dylai hyn gael ei seilio ar y model sy'n cael ei roi ar waith yn yr Alban ar hyn o bryd i helpu'r diwydiant i ddod dros Covid-19.




Sicrhau bod unrhyw gylchoedd cyllido yn y dyfodol, megis y Gronfa Cadernid Economaidd, yn agored i weithredwyr coetsys, sy'n elfen allweddol o'r gadwyn gyflenwi mewn llawer o sectorau.

Adfer hyder trwy ddarparu neges glir i bobl Cymru fod teithio gyda choetsys yn ddiogel o ran Covid-19 wrth inni adael y cyfyngiadau.




## Strategaeth ar y cyd rhwng diwydiant a llywodraeth i leihau nifer teithiau car hirbell

Dylai'r strategaeth hon gynnwys:

Mesurau sy'n sicrhau bod strategaethau aer glân yn cefnogi'r newid dulliau teithio o'r car preifat i fathau cynaliadwy o drafnidiaeth dorfol. Rhaid i hyn olygu blaenoriaethu trafnidiaeth dorfol fel coetsys dros geir.

Cronfa aer glân genedlaethol i gefnogi gweithredwyr coetsys i fuddsoddi mewn cerbydau newydd neu i ôl-osod i gwrdd â gofynion Parthau Aer Glân, tebyg i'r gronfa BEAR yn yr Alban.

Cymhellion i weithgynhyrchwyr ddatblygu atebion cerbydau allyriadau isel iawn a dim allyriadau a chefnogi datblygiad seilwaith cysylltiedig.

Esemptiad rhag unrhyw gynlluniau prisio ffyrdd ar gyfer cerbydau fel coetsys sy'n lleihau tagfeydd a llygredd.




## Gwneud cyfleusterau coetsys a mynediad atynt yn flaenoriaeth ar gyfer lleoliadau y disgwylir iddynt dderbyn nifer fawr o ymwelwyr

Sicrhau bod deddfwriaeth cynllunio Cymru yn addas i'r diben ar gyfer mynediad coetsys.



Ochr yn ochr â gweithredwyr sy'n ymrwymo i'r arferion gorau wrth ymweld ag atyniadau a lleoedd, cymeradwyaeth gan holl lywodraethau'r DU i arweinlyfr cyfeillgar i goetsys y CPT i awdurdodau lleol ar gyfer datblygu economaidd newydd.


## Datblygu'r cynnig coetsys fel elfen allweddol o strategaeth twristiaeth Cymru

Ymgyrchoedd a gefnogir gan Lywodraeth Cymru a Croeso Cymru i hybu teithio gyda choetsys i deithwyr a lleoliadau yn cynnwys annog dychweliad tripiau addysgol gyda choetsys.

Rheoli brig y galw mewn atyniadau allweddol, megis ag ym Mharc Cenedlaethol Eryri, trwy wneud coetsys yn ateb i'r broblem o orlenwi a thagfeydd.

Sicrhau bod y sector coetsys yn cael ei weld fel rhan o'r ateb i wariant ymwelwyr cynyddol yng Nghymru trwy hwyluso arosiadau hirach.






## Annog pobl ifanc i mewn i'r diwydiant

Darparu llwybr i rai sy'n gadael ysgol a choleg i mewn i'r diwydiant trwy annog Gyrfa Cymru a rhaglenni cyflogaeth eraill i gefnogi gyrfa yn y sector coetsys.

cpt

Cyswllt

**Joshua Miles**
Cyfarwyddwr CPT Cymru
josh.miles@cpt-uk.org